Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Llawdriniaeth Cataract

# Yr Uned Llygaid

---

Mae eich meddyg wedi diagnosio ac wedi esbonio y gall llawdriniaeth wella eich golwg. Rhoddir yr wybodaeth hon er mwyn eich helpu i wneud penderfyniad ynghylch y llawdriniaeth honno. Cymrwch gymaint o amser ag yr hoffech chi cyn llofnodi'r ffurflen ganiatâd.

Trafodwch y mater gydag unrhyw un yr hoffech a chofiwch ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych i'r meddyg cyn y llawdriniaeth.

**Beth yw cataract?**

Cataract yw pan fydd lens y llygad yn cymylu. Bydd eich golwg yn niwlog neu'n wan neu efallai eich bod yn profi disgleirdeb.

**Beth gellir ei wneud i wella fy ngolwg?**

Er y gall sbectol helpu, pan mae'r cataract yn cyrraedd cam penodol, yr unig ffordd o wella eich golwg yw gyda llawdriniaeth.

**Pryd dylwn i gael y llawdriniaeth?**

Nid oes rhaid i chi aros nes rydych chi'n ddall. Gellir cynnal y llawdriniaeth pan ydych yn teimlo bod yr amhariad yn effeithio ar eich gweithgareddau bob dydd, e.e. darllen, siopa a'ch diddordebau.

**Beth fydd yn digwydd wedi'r llawdriniaeth?**

Fel arfer, mae'r driniaeth yn cael ei pherfformio fel achos dydd gydag anesthetig lleol. Caiff y llygad a gaiff y driniaeth ei marcio. Ychydig cyn y llawdriniaeth, rhoddir rhywfaint o ddiferion yn eich llygad i wneud cannwyll eich llygad yn fwy. Eir â chi i'r ystafell llawdriniaeth lle gwneir y llawdriniaeth gyda chymorth microsgop.

Gwneir toriad bach yn y llygad a thynnir y cataract ohoni. O dan amgylchiadau arferol, rhoddir lens blastig yn y llygad. Tua 30 munud yw hyd y llawdriniaeth.

Mae hyfforddi gweithwyr iechyd proffesiynol yn hanfodol i ni allu parhau a'n Gwasanaethau Iechyd a gwella'r ansawdd gofal a gewch. Gall eich llawdriniaeth fod yn gyfle pwysig i gynnal hyfforddiant o'r fath o dan oruchwyliaeth ofalus meddyg uwch. Gallwch wrthod cymryd rhan mewn rhaglen feddygol yn hyfforddi myfyriwr heb iddo effeithio'n andwyol ar eich gofal a'ch triniaeth.

## Pa welliannau y galla i eu disgwyl?

Mae llawdriniaeth cataract yn ddiogel iawn ac yn effeithiol.  Gallwch ddisgwyl y canlynol:-

- 95% o bosibilrwydd y bydd eich golwg yn well
- 90% o bosibilrwydd y bydd eich golwg yn dda ( 6/12 )
- 86% o bosibilrwydd y bydd eich golwg yn rhagorol ( 6/6 )

Gan ddefnyddio sbectols i weld yn bell a/neu agos.

## A oes unrhyw broblemau posibl?

Oes, gall problemau ddigwydd fel gydag unrhyw driniaeth.  Mae'n rhaid pwysleisio bod llawdriniaeth cataract yn llwyddiannus iawn i ran fwyaf y cleifion.  Dyma'r problemau allai godi yn ystod y llawdriniaeth:-

- Gwaedu y tu mewn i'r llygad
- Y capsiwl yn rhwygo
- Y llygad yn colli gel

Os yw'r rhain yn digwydd, mae'n bosibl na fydd modd gosod y mewnblaniad.

Dyma'r problemau allai godi yn ystod y llawdriniaeth:-

- Chwydd
- Glawcoma
- Haint
- Y retina yn chwyddo ac yn dod yn rhydd
- Mewn achosion prin, gall cryfder y lens fod yn rhy gryf neu'n rhy wan
- Y ddelwedd yn amrywio rhwng y ddwy lygad
- Caead uchaf y llygad yn cwympo
- Y cornea yn niwlog
- Alergedd neu sgil-effeithiau i'r feddyginiaeth a ddefnyddir
- Capsiwl y lens yn niwlog

Mae'r cymhlethdodau hyn i gyd yn brin iawn ond gall rhai ddifrodi eich llygad am byth.  Dyma pa mor debygol ydy hyn o ddigwydd:-

- 1% - y retina yn dod yn rhydd
- 5% - y retina yn chwyddo
- 1 mewn 1000 o siawns o haint
- 20% - y capsiwl yn niwlog ac angen triniaeth laser

## A oes yna broblemau posibl oherwydd anesthetig?

Mae'r anesthetig mae ei angen ar gyfer llawdriniaeth cataract yn ddiogel iawn ond fel gydag unrhyw lawdriniaeth, mae cymhlethdodau'n digwydd weithiau.  Mae yna 3

ffordd o ddefnyddio anesthetig yn y llygad.  Y tri yw anesthetig cyffredinol, lleol a 'topical'.

**Anesthetig cyffredinol** yw pan ydych yn cysgu.  Er ei fod yn ddiogel, gall cymhlethdodau godi gan gynnwys cleisio a chwyddo yn y man lle gwaed y pigiad, colli cof, strôc, problemau gyda'r galon neu'r frest ac yn anaml iawn, marwolaeth. Dyw'r rhestr hon ddim o bell ffordd yn gyflawn a dylech drafod unrhyw bryderon sydd gennych gyda'r anesthetydd.

**Anesthetig lleol** yw pan ydych ar ddihun ar gyfer y llawdriniaeth ond mae'r llygad yn cael ei fferru gyda diferion a phigiad.  Mae'n rhaid i chi orwedd yn weddol llonydd yn ystod y driniaeth.  Gall cymhlethdodau yn sgil yr anesthetig lleol gynnwys cleisio ac yn anaml iawn, nodwydd y pigiad yn rhwygo'r llygad.

**Anesthetig topical** yw pan leddir teimlad yn y llygad gyda diferion yn unig.  Mae'n rhaid i chi orwedd yn llonydd a bydd y llawfeddyg yn gofyn i chi edrych i gyfeiriad penodol yn ystod y llawdriniaeth.  Y cymhlethdod mwyaf cyffredin yw ychydig o anesmwythder.  Mae'n amhosibl crybwyll pob cymhlethdod all ddigwydd.  Fodd bynnag, mae'n rhaid pwysleisio bod cael gwared ar gataract yn ddiogel iawn ac yn llawdriniaeth lwyddiannus.  Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, gofynnwch i'ch meddyg **cyn** y llawdriniaeth.

**NODIADAU PERSONOL** ___________________________________

______________________________________________________

______________________________________________________

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**